

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024

**COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR SAFONAU A GYNHALIWYD O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU, 7 MAWRTH 2024
AM 10:00**

Yn Bresennol

Cynghorydd S Cullen – Cadeirydd

Yn Bresennol yn Rhithwir

MJ Williams
R Lynch

G Thomas
S Maughan

G Walter

P Baker

Swyddogion:

Oscar Roberts
Laura Griffiths
Kelly Watson
Michael Pitman

Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd
Prif Gyfreithiwr
Prif Swyddog y Gwasanaethau Rheoliadol, AD a Chyfreithiol
Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd

Datgan Buddiannau

Datganodd y Cynghorydd G Walter fuddiant rhagfarnus yn eitem 8 ar yr agenda – Cymeradwyo cofnodion Eithriedig, gan ei fod wedi datgan buddiant rhagfarnus o'r blaen yn y cyfarfod penodol hwnnw.

134. Cymeradwyo Cofnodion

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024

Penderfyniad a Wnaed	<u>PENDERFYNWYD:</u> Cymeradwyo cofnodion y 22/06/2023 a'r 16/11/2023 fel cofnod gwir a chywir.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07 Mawrth 2024

135. Diweddariad o Sylwadau Cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned a Chyfarfodydd Cyngor

Penderfyniad a Wnaed	<p>Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn diweddaru'r Pwyllgor ar sylwadau Aelodau'r Pwyllgor hwn sy'n arsylwi cyfarfodydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC) a Chynghorau Tref a Chymuned (TCC).</p> <p>Eglurodd fod 3 arsylwad wedi bod ers cyfarfod mis Tachwedd fel y rhestrir yn adran 3 yr adroddiad. Ni roddwyd unrhyw adborth neu bryderon penodol mewn perthynas ag ymddygiad. Darparwyd y daflen arsylwi a atodwyd yn Atodiad 1 i'r adroddiad i gynorthwyo'r aelodau gyda'u sylwadau.</p> <p>Holodd Aelod ynghylch y pwynt a wnaed ynghylch clerc/Aelodau Cyngor Tref Pencoed ar ôl gofyn a ddylid ymgynghori â nhw. Roedd hyn mewn perthynas â'r penderfyniad a wnaed yng nghyfarfod y Pwyllgor Safonau ym mis Tachwedd i arsylwi cyfarfodydd. Dywedodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol nad oedd yn credu bod angen i Aelodau'r Pwyllgor Safonau ymgynghori â nhw, gan fod cylch gwaith y pwyllgor hwn yn ymdrin â Chynghorau Tref a Chymuned hefyd. Cytunodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i anfon yr ohebiaeth a oedd ganddi gyda chlerc y Cyngor Tref.</p> <p>Gofynnodd Aelod a oedd modd sicrhau nad oedd Aelodau o'r Pwyllgor yn dwbl-archebu mewn cyfarfod Cyngor Tref a Chymuned. Eglurodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol fod taenlen wedi'i chylchredeg o'r blaen a roddodd gyfle i'r Aelodau roi eu henw i lawr ar gyfer cyfarfod penodol a Chyngor Tref a Chymuned o'u dewis. Byddai hyn wedyn yn cael ei gydlynu i sicrhau nad oedd yr Aelodau i gyd yn mynychu'r un cyfarfodydd.</p> <p><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Pwyllgor:</p> <ul style="list-style-type: none">• Yn nodi'r adroddiad a'r adborth o sylwadau;
----------------------	---

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024

	<ul style="list-style-type: none">• Wedi cadarnhau'r defnydd o'r daflen arsylwi yn Atodiad 1.
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07 Mawrth 2024

136. Pwyllgor Safonau - Proses gwrandawiadau

Penderfyniad a Wnaed	<p>Cyflwynodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol adroddiad a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor nodi'r weithdrefn fabwysiedig i bennu cwynion Cod Ymddygiad sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau i sicrhau bod materion yn cael eu trin yn deg ac yn effeithlon.</p> <p>Esboniodd fod y weithdrefn ynghlwm yn Atodiad 1. Pe bai unrhyw wrthdaro rhwng y ddogfen hon ac unrhyw ofynion statudol, yna bydd y gofynion statudol hynny'n drech. Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori'r Pwyllgor ynghylch y broses.</p> <p>Gofynnodd Aelod a oedd yn bosibl derbyn rhywfaint o arweiniad ar yr Aelodau Etholedig sy'n eistedd ar y Pwyllgor a'u dyletswydd i ddatgan diddordeb. Ymhelaethodd drwy roi enghraifft y bydd llawer o wrandawiadau yn aml yn cynnwys Aelod etholedig arall sy'n ei gwneud hi'n anodd i Aelodau'r Pwyllgor wybod beth yw buddiant personol a beth yw buddiant rhagfarnus, o ystyried eu bod yn gweithio ochr yn ochr â nhw.</p> <p>Eglurodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, fel gydag unrhyw fuddiant, ei fod bob amser fesul achos. Efallai y bydd sefyllfa lle rydych chi'n gweithio yn yr un ward â nhw, yn yr un grŵp gwleidyddol, neu'n ffrindiau gyda thystion yn yr achos. Dywedodd ei bod bob amser yn hapus i gael sgwrs fanwl os oes angen am ba berthynas sydd gennych â'r person hwnnw ac a yw hynny'n gyfystyr â buddiant sy'n rhagfarnu.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07 Mawrth 2024

137. Eitemau Brys

Penderfyniad a Wnaed	Dim
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07 Mawrth 2024

138. Gwahardd y Cyhoedd

Penderfyniad a Wnaed	<p><u>PENDERFYNWYD:</u> Dan Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol gan fod y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi'i heithrio fel y diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A a Pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A y Ddeddf.</p> <p>Yn dilyn cymhwyso prawf budd y cyhoedd, penderfynwyd yn unol â darpariaethau'r Ddeddf y cyfeirir ati uchod, ystyried yr eitem a grybwyllir isod yn breifat gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod, gan y byddai'n golygu datgelu gwybodaeth eithriedig iddynt fel y nodwyd uchod.</p>
Dyddiad Gwneud y Penderfyniad	07 Mawrth 2024

139. Cymeradwyo'r Cofnodion Wedi'u Heithrio

Penderfyniad a Wnaed	<p><u>PENDERFYNWYD:</u> Bod cofnodion eithriedig y 22/06/2023 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.</p>
Dyddiad Gwneud y	07 Mawrth 2024

PWYLLGOR SAFONNAU - DYDD IAU, 7 MAWRTH 2024

Penderfyniad	
--------------	--

I wyllo trafodaeth bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y [ddolen](#) hon

Daeth y cyfarfod i ben am 10:35